# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Gorffennaf 4ydd 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Dewi Pritchard (is-gadeirydd), Maldwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Morris, Rita Jones, Meilir Jones, Alwyn Jones. Iolo V. Evans, a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Evans, Eifion Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 2il 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd
i) Cais grant i Gronfa Cymunedau Eryri - **roedd cais wedi cael ei anfon i fewn ar gyfer gwneud gwelliannau i'r fynwent yn Frongoch. Os byddai'r cais yn llwyddiannus cytunwyd fod y Clerc yn trafod gyda'r cadeirydd ac yna'n rhoi cyfarwyddiadau i'r contractwyr gychwyn ar y gwaith cyn gynted a phosib.**
ii) Mynwent Frongoch – **roedd cymhlethdodau ynglŷn â thorri'r coed yn y fynwent a chytunwyd i ddilyn cyngor Adran Goed Cyngor Gwynedd a chael adroddiad mwy manwl am effaith yr oedd gwreiddiau'r yn cael ar y wal gynnal. Roedd y clerc hefyd wedi derbyn pryderon am goed eraill ar ffin y fynwent ger y Tŷ Hers, cytunodd rhai o'r cynghorwyr eu harchwilio ac i'r clerc cael pris ac unrhyw waith anghenrheidiol.**
c) Damweiniau ar yr A494 – **yn dilyn y damweiniau diweddar ac amharodrwydd yr Asiantaeth Cefnffyrdd i wneud gwelliannau cytunwyd yn unfrydol i drafod pryderon y Cyngor gyda Mabon ap Gwynfor a Liz Saville-Roberts.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Cronfeydd Cefnogi Adfywio.
ii) Rhaglen Waith mis Gorffennaf.

b) Amrywiol.
i) Triathlon Bala
ii) Arolwg Cysylltedd Cymru.
iii) Cadwch Gymru'n Daclus - Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
iv) Un Llais Cymru – Rheolau Sefydlog – **gan fod camgymeriadu yn y templed roedd y clerc wedi ei dderbyn roedd wedi cael ei ddiweddaru a chytunwyd i fabwysiadwy' y fersiwn cywir.**

v) Ceisiadau Cynllunio
Nid oedd ceisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau Ebr-Meh 2023) **– Cymeradwywyd.**
b) Taliadau - Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh), TWE, arwyddion mynwent a thoiledau Llandderfel, printer newydd i'r Clerc – **Cymeradwywyd.**
c) Ceisiadau Ariannol – Hosbis Tŷ'r Eos - **cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

## CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEDI 5ED YN NEUADD MYNACH.